Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

AC(4)2014(11)

**Dyddiad:** 17 Medi 2014
**Amser:** 12:30
**Lleoliad:** Swyddfa’r Llywydd, Tŷ Hywel

## Cofnodion drafft cyfarfod 17 Medi 2014

**Yn bresennol:**
**Y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd**
**Peter Black AC**
**Sandy Mewies AC**

**Swyddogion yn bresennol:**
**Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**
**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau’r Comisiwn**
**Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid *(eitem 2)***
**Sulafa Thomas, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn**

**Eraill:**
**David Melding AC, y Dirprwy Lywydd**

**Ymddiheuriadau:**
**Angela Burns AC**
**Rhodri Glyn Thomas AC**

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

**Ymddiheuriadau**

Roedd Rhodri Glyn Thomas AC ac Angela Burns AC wedi anfon eu hymddiheuriadau.

**Datganiadau o fuddiant**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

**Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf.

## 2. Cyllideb ddrafft 2015-16

Roedd dogfen y gyllideb ddrafft, a ystyriwyd yn flaenorol yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf, wedi cael ei diweddaru. Fel y rhagwelwyd, mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys am y cynnydd yng nghost Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gyfer staff y Comisiwn, yn ôl y disgwyl, ac mae gwybodaeth am gyllid dangosol ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol wedi'i chynnwys hefyd. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU ffigwr is na'r disgwyl ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n dileu'r angen am gynnwys eitem eithriadol.

Ystyriodd y Comisiynwyr fod y gyllideb ddrafft yn unol ag anghenion y Comisiwn a disgwyliadau'r Pwyllgor Cyllid yn llwyr. Teimlodd y Comisiynwyr y bydd y Gyllideb yn darparu llwyfan cadarn ar gyfer y Pumed Cynulliad i weithio arno, ac mae'n adlewyrchu'r nodau a'r targedau strategol y cytunwyd arnynt eisoes. Cytunodd y Comisiynwyr ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16, a rhoddwyd cymeradwyaeth i osod y ddogfen ar 25 Medi 2014.

Bydd y Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y gyllideb ddrafft ar 2 Hydref.

## 3. Unrhyw fater arall

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29 Medi. Bydd y Comisiynwyr yn canolbwyntio ar faterion perfformiad, pan fyddant yn trafod yr adroddiad Perfformiad Corfforaethol am y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, a chanlyniadau'r Arolwg Aelodau a'u staff cymorth.

Bydd Peter Black yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ar 23 Medi i roi tystiolaeth ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

**AC(4)2014(11)**
**Cofnodion cyfarfod 17 Medi 2014**

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Medi 2014**